Adroddiad ar

Ysgol 3-19 y Brenin Harri VIII

Hen Heol Henffordd
Y Fenni
Sir Fynwy
NP7 6EP

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

# Ynglŷn ag Ysgol 3-19 y Brenin Harri VIII

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol 3-19 y Brenin Harri VIII |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Fynwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Ysgol bob oed |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1310 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 1129 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 18 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 140 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector ysgolion pob oed yw 18.9%) | 20.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector ysgolion pob oed yw 8.1%) | 5.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 3.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.5% |

| | |
|---|---|
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | Dd/b |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/02/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Ers ei hagor ym mis Medi 2023, mae arweinwyr a staff yn Ysgol 3-19 y Brenin Harri VIII wedi cydweithio'n effeithiol i sefydlu'r ysgol bob oed newydd. Bu uwch arweinwyr yn canolbwyntio i ddechrau ar feysydd allweddol yr oedd angen eu gwella ar unwaith, fel cefnogi lles disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu. O ganlyniad i gynllun datblygu cychwynnol pwrpasol a chraff, bu gwelliannau clir yn ymddygiad ac agweddau disgyblion at ddysgu ac yn y cynnydd a wnânt mewn dysgu. Ceir diwylliant diogelu cryf ar draws yr ysgol a systemau effeithiol i gefnogi datblygiad emosiynol a chymdeithasol disgyblion sy'n golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal da. Er bod cyfraddau presenoldeb ysgol gyfan wedi gwella, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau yn rhy isel.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu sy'n is na'r disgwyl ond maent yn gwneud cynnydd addas dros gyfnod, ac mae ychydig ohonynt yn cyflawni deilliannau cryf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol mewn dysgu, yn barchus ac yn cydweithio'n dda â chyfoedion a staff. Mae llawer o athrawon yn cynllunio sesiynau strwythuredig sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion. Maent yn cynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol â'u disgyblion ac yn defnyddio cwestiynnu effeithiol i ennyn eu diddordeb mewn dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae gwendidau mewn addysgu, fel cynllunio gwael, her annigonol ar gyfer disgyblion mwy abl ac amrywiaeth yn ansawdd yr adborth.

Mae cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder sy'n golygu bod llawer o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu hamcanion dysgu a chymdeithasol. Mae'r ysgol yn cynnal canolfan adnoddau arbenigol (CAA) sy'n darparu dosbarthiadau ar gyfer disgyblion â chyflyrau'r sbectrwm awtistig. Mae disgyblion ar draws yr ystod oedran sy'n mynychu'r cyfleuster hwn yn gwneud cynnydd da mewn medrau cymdeithasol a chyfathrebu dros amser.

At ei gilydd, mae medrau llythrennedd disgyblion yn datblygu'n addas, wedi eu cefnogi gan ddatblygiad diwylliant darllen cadarnhaol. Fodd bynnag, mae diffyg strategaeth glir i ddatblygu medrau rhifedd, digidol a Chymraeg disgyblion ar draws y cwricwlwm, ac mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn anghyson.

Mae'r cwricwlwm yn addas, at ei gilydd, ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn. Ceir cyfleoedd allgyrsiol amrywiol gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu tu allan i'r ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, nid yw trefniadau addysgegol a threfniadau ar gyfer y cwricwlwm i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 bob amser yn addas ar gyfer eu cyfnod datblygiadol. Mae arweinwyr yn dechrau darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff o

wahanol gyfnodau neu ffes i gydweithio i gynllunio'r cwricwlwm a dysgu, ond nid yw hyn yn gyson ar draws meysydd dysgu. Ceir cyfleoedd anghyson ar draws yr oedrannau i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant Cymru yn fanwl, a'i archwilio.

Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau rheolaeth llinell yn gydlynus a chyson ar draws y sectorau. Ceir cyfleoedd rheolaidd i arweinwyr ar bob lefel werthuso effeithiolrwydd eu gwaith trwy ystod addas o weithgareddau sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o ran ystyried effaith y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar safonau a chynnydd disgyblion dros gyfnod. Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r pennaeth yn dda, yn monitro cyllidebau'n agos ac yn herio arweinwyr i wneud gwelliannau.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pum argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Cryfhau'r cynllunio strategol ar gyfer datblygu medrau rhifedd, digidol a Chymraeg disgyblion yn gynyddol

A2 Sicrhau bod addysgeg a phrofiadau dysgu yn briodol i gyfnod datblygu disgyblion

A3 Gwella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

A4 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a gwella yn canolbwyntio'n graff ar effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion dros gyfnod

A5 Parhau i ddatblygu'r ethos pob oed trwy ddarparu cyfleoedd i staff gydweithio ar draws sectorau a gwneud cyfraniad gwerthfawr at gyfeiriad strategol yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

# Prif ganfyddiadau

## Addysgu a dysgu

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae medrau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu disgyblion islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud i fyny'r ysgol, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd addas, sy'n briodol i oedran, o leiaf, mewn medrau llythrennedd a rhifedd, ac mae ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd cryf. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn eu dysgu a'u gwybodaeth bynciol dros gyfnod. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn cymhwyso hyn yn llwyddiannus i gyd-destunau newydd neu anghyfarwydd. Lle mae cyfleoedd i wneud hynny, mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau meddwl yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau dadansoddi yn dda pan fyddant yn creu dadleuon cydlynus a chytbwys i gwestiynau heriol, sy'n ysgogi'r meddwl neu gwestiynau moesegol yn eu gwersi crefydd, gwerthoedd a moeseg.

Nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gwybodaeth a'u medrau pwnc. Mae hyn fel arfer o ganlyniad i strategaethau addysgu aneffeithiol, disgwyliadau isel neu gynllunio gwael i ddiwallu anghenion disgyblion. Nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent wrth ystyried eu hoedran a'u gallu gan na roddir gwaith sy'n addas o heriol iddynt. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a heriau emosiynol a chymdeithasol yn gwneud cynnydd cryf o ganlyniad i'r cymorth teilwredig a ddarperir gan oedolion. Mae disgyblion sy'n cael eu haddysgu yn y ganolfan adnoddau arbenigol yn gwneud cynnydd cadarn yn eu datblygiad cymdeithasol, cyfathrebu ac emosiynol dros gyfnod.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn barchus at oedolion ac ymwelwyr, ac yn cymryd rhan yn dda mewn sgwrsiau cwrtais. Maent yn cyrraedd sesiynau'n brydlon ac yn ymdawelu'n gyflym. Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn gwrando'n barchus ar yr athro ac ar gyfraniadau eu cyfoedion. Maent yn aros eu tro yn gwrtais ac yn cydweithio'n dda mewn tasgau grwpiau bach.

Mae bron pob un o'r disgyblion ieuengaf yn y dosbarthiadau sylfaen yn ymgysylltu'n gadarnhaol â dysgu mewn tasgau sy'n cael eu harwain gan oedolion ac mewn gweithgareddau annibynnol. Wrth iddynt symud i'r cam dysgu nesaf, maent yn awyddus i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau pwrpasol ac yn datblygu lefel dda o wydnwch sy'n berthnasol i'w hoedran a'u gallu. Fodd bynnag, oherwydd gwahaniaeth mewn arddull addysgeg a newid mewn arferion ystafell ddosbarth yn y sector canol, nid yw disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn ymgysylltu cystal â dysgu â'u cyfoedion iau. Mae hyn yn rhwystro'u datblygiad naturiol, eu chwilfrydedd a'u mwynhad o gaffael gwybodaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn y sector uwchradd yn dangos diddordeb clir

mewn testunau ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Maent yn dal ati i ganolbwyntio'n dda yn ystod cyfarwyddyd gan athrawon, yn dyfalbarhau mewn tasgau trafod gyda chyfoedion ac yn dangos gwydnwch wrth gwblhau tasgau yn annibynnol. Mae ychydig o ddisgyblion yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio ac nid ydynt yn ymroi cystal ag y gallent mewn tasgau. Mae gan ychydig o ddisgyblion hŷn fedrau llawysgrifen a chyflwyno gwan.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn mwynhau eu cyrsiau a'r cyfleoedd a roddir iddynt ddatblygu i fod yn unigolion annibynnol, yn barod ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu. Maent yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol i ddisgyblion iau ac yn ymddwyn mewn ffordd aeddfed a chyfrifol yn ystod amser astudio personol.

## Addysgu ac asesu

Mae'r rhan fwyaf o staff yn adnabod eu disgyblion yn dda, yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol a pharchus â nhw ac yn annog cyfranogiad da. Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion a'r cynnydd a wnânt mewn sesiynau dros gyfnod. Maent yn cynnal arferion sefydledig sy'n cefnogi hyn yn effeithiol.

Mae llawer o athrawon yn cyflwyno sesiynau strwythuredig ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion. Maent yn darparu esboniadau pwrpasol, yn gosod cyfarwyddiadau clir ac yn dangos meini prawf llwyddiant perthnasol. Mae cyflymdra dysgu yn y sesiynau hyn yn gweddu'n dda i anghenion unigol llawer o ddisgyblion, ac mae hyn yn sicrhau eu bod yn parhau i ymgysylltu â'u dysgu ac yn gwneud cynnydd. Fodd bynnag, ar adegau prin, mae diffyg diben a chyfeiriad clir i gynllunio athrawon. Yn y sesiynau hyn, nid yw athrawon yn rheoli'r amser dysgu'n ddigon da, maent yn gosod gormod o dasgau byr neu'n gosod tasgau nad ydynt yn cyd-fynd â'r amcanion dysgu nac yn helpu atgyfnerthu'r dysgu.

Mae llawer o athrawon yn darparu lefel briodol o gymorth ac yn gosod tasgau sy'n gweddu'n addas i gyfnod datblygiadol disgyblion. Yn gyffredinol, maent yn darparu tasgau i ddisgyblion sy'n cynnig lefel addas o her iddynt. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau bob amser yn diwallu anghenion disgyblion mwy abl ac mae hyn yn eu hatal rhag gwneud cynnydd cryf a chynaledig. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo'r dysgu ac mae hyn yn cyfyngu ar ddatblygiad annibyniaeth a gwydnwch disgyblion.

Mae llawer o athrawon yn creu neu'n darparu adnoddau addysgu o ansawdd uchel, sydd wedi'u saernïo'n dda, i gefnogi addysgu a dysgu. Maent yn gweithredu fel modelau rôl iaith cryf ac yn dangos gwybodaeth ac arbenigedd pwnc sylweddol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, ceir diffygion nodedig: nid yw athrawon yn defnyddio'r iaith darged yn

ddigon aml, nid ydynt yn datblygu geirfa dechnegol disgyblion yn effeithiol, ac maent weithiau'n dibynnu ar driciau byr di-fudd er mwyn cael at atebion.

Mae llawer o athrawon yn deall egwyddorion dysgu sylfaen yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o addysgeg a chyfnodau datblygiadol plant sy'n eu galluogi i greu amgylcheddau dysgu cyfoethog a difyr sy'n annog chwilfrydedd disgyblion ac yn eu galluogi i ddod yn feddylwyr ymholgar a chreadigol, yn annibynnol ar oedolion. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar ddatblygu'r rhinweddau hyn yn yr amgylchedd dysgu yn yr awyr agored.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio cwestiynu medrus i asesu cynnydd disgyblion, eu helpu i alw eu dysgu blaenorol i gof a dyfnhau eu meddwl, er nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae llawer o athrawon yn darparu adborth amserol ac effeithiol ar lafar mewn sesiynau. Mae anghysondeb o ran sut mae athrawon yn mynd i'r afael â gwallau sillafu, gramadeg ac atalnodi yng ngwaith ysgrifenedig disgyblion. At ei gilydd, mae diffyg eglurder yn null yr ysgol o ddarparu adborth, ac mae hyn yn effeithio ar ansawdd ac amrywioldeb adborth ysgrifenedig. Nid yw adborth athrawon i ddisgyblion bob amser yn helpu disgyblion i ddeall sut i wella'u gwaith. Nid eir i'r afael yn systematig â chyflwyniad ysgryfenedig gwael gan ddisgybion.

## Medrau llythrennedd, rhifedd a digidol

Mae arweinwyr yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn mabwysiadu strategaethau ysgol gyfan synhwyrol wrth gynllunio i gyflwyno darpariaeth llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn eu sesiynau. Mae'r dulliau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu medrau siarad a darllen sylfaenol disgyblion. Ceir cyfleoedd defnyddiol ar draws sectorau a'r cwricwlwm i ddisgyblion ysgrifennu. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r agwedd hon ar waith yr ysgol.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd yn briodol o'r Meithrin trwodd i'r cyfnod uwchradd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion oedran cynradd yn gwneud cynnydd addas, yn aml o fan cychwyn isel. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion oedran cynradd hŷn yn gwrando'n briodol, yn ymateb yn dda i gwestiynau ac yn cyfrannu'n gynhyrchiol at drafodaeth ddosbarth a grŵp. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion oedran uwchradd yn gwrando'n dda ar athrawon a chyfoedion. Mae llawer ohonynt yn gwneud cyfraniadau sylweddol ar lafar mewn sesiynau ac yn cymryd rhan yn dda mewn tasgau siarad mewn grwpiau. Maent yn defnyddio geirfa briodol ac yn mynegi syniadau'n glir. Mae mwyafrif o ddisgyblion oedran uwchradd yn cynnig ymatebion wedi'u datblygu'n llawn, gan ddewis geirfa soffistigedig yn aml.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda wrth iddynt symud i trwy'r ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion oedran cynradd iau yn gwrando'n ofalus ar storïau, yn ymateb yn briodol, ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o nodweddion stori fel cymeriad, lleoliad, plot a diweddglo. Mae llawer o ddisgyblion oedran cynradd hŷn yn darllen yn hyderus, yn defnyddio strategaethau addas i fynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd ac yn magu annibyniaeth. Mae llawer o ddisgyblion oedran uwchradd yn darllen â rhuglder addas ar draws y cwricwlwm, yn dod o hyd i wybodaeth yn gywir, yn anodi testunau'n briodol ac yn dangos amgyffrediad cadarn o gyd-destun. Mae llawer ohonynt yn casglu ystyr sylfaenol o ddeunydd ysgrifenedig a gweledol, yn crynhoi'n addas wrth siarad ac ysgrifennu, ac yn llunio dadansoddiadau sylfaenol. Mae lleiafrif ohonynt yn llunio dadansoddiadau mwy datblygedig gan ddefnyddio terminoleg allweddol a nodi dyfeisiau llenyddol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn y sector uwchradd yn cael digon o gyfleoedd i ymarfer a datblygu medrau darllen eraill ar lefel uwch fel rhesymu a dod i gasgliad.

### Ciplun: Sefydlu diwylliant darllen

Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant darllen addas trwy ystod o ddulliau sy'n annog pob disgybl i ymddiddori mewn llyfrau yn rheolaidd. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9 yn elwa ar sesiynau darllen dynodedig yn y llyfrgell lle maent yn defnyddio dull darllen strwythuredig i gefnogi eu cynnydd. Mae'r llyfrgell yn amgylchedd croesawgar a difyr. Mae'n cynnwys cyflenwad da o lyfrau ac yn cael ei chynnal gan lyfrgellydd a monitoriaid disgyblion sy'n helpu nodi llyfrau sy'n ategu gwerthoedd yr ysgol. Mae disgyblion iau ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn datblygu hyder wrth ddefnyddio'r llyfrgell trwy sesiynau archwiliol. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn elwa ar lyfrgell ar-lein yr ysgol, sy'n ehangu ystod y testunau sydd ar gael iddynt. Caiff darllen ei atgyfnerthu ymhellach yn ystod sesiynau dynodedig yn y sector cynradd ac yn ystod cyfnod cofrestru ym Mlwyddyn 7 lle mae disgyblion yn darllen testunau dosbarth ar goedd yn rheolaidd. Mae awduron gwadd a thripiau i siopau llyfrau lleol yn helpu cyfoethogi profiadau a mwynhad disgyblion o ddarllen.

Mewn dosbarthiadau dysgu sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau ysgrifennu, yn cysylltu llythrennau â seiniau ac yn ffurfio llythrennau â rheolaeth a chywirdeb cynyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion oedran cynradd iau yn meithrin medrau motor manwl yn dda ac yn eu defnyddio i gefnogi ysgrifennu'n annibynnol. Gyda chymorth, mae ychydig ohonynt yn ysgrifennu brawddegau syml sy'n gwneud synnwyr. Mae llawer o ddisgyblion oedran cynradd hŷn yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig priodol, ond nid yw safonau ysgrifennu yn gyson ar draws dosbarthiadau. Yn y sector uwchradd, mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn modd soffistigedig gan ddefnyddio ystod eang o eirfa. Mae llawer o ddisgyblion yn strwythuro'u gwaith yn briodol. Mae mwyafrif ohonynt yn amrywio strwythurau brawddeg yn effeithiol ac yn cynnal ansawdd y gwaith wrth ysgrifennu'n estynedig. Fodd bynnag, mae llawysgrifen ychydig o ddisgyblion yn anodd ei

darllen ac maent yn gwneud gwallau sillafu a gramadeg sylfaenol yn aml. At ei gilydd, nid yw disgyblion ar draws y sectorau yn cael cyfleoedd i ysgrifennu'n ddigon aml ar gyfer ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd.

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn yr adran is a'r adran ganol yn datblygu medrau rhifedd cadarn dros amser. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn dechrau gweithio'n hyderus gydag arian. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio dulliau addas i luosi rhifau cyfan â 10 a 100. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gref o rif, er enghraifft wrth luosi rhifau degol yn annibynnol. Fodd bynnag, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o agweddau eraill ar fathemateg.

Wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol, mae mwyafrif y disgyblion oedran uwchradd yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol. Er enghraifft, maent yn adio ac yn tynnu ffracsiynau gyda gwahanol enwaduron yn briodol. Mae disgyblion mwy abl yn datblygu a chymhwyso'r medrau hyn yn gadarn, er enghraifft wrth symleiddio ffracsiynau algebraidd. Yn ehangach, mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhif yn fedrus wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o geometreg, mesur ac ystadegau, er enghraifft wrth gael atebion i broblemau onglau cyfansawdd. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn dangos medrau rhif llai cadarn. Nid ydynt yn meddu ar ruglder, dealltwriaeth gysyniadol na hyder wrth weithio gyda rhif mewn ystod o gyd-destunau, ac maent yn aml yn gwneud gwallau sylfaenol niferus.

Ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion oedran uwchradd yn datblygu eu dealltwriaeth o ddata yn briodol, er enghraifft mewn daearyddiaeth wrth ddisgrifio'r duedd yn amrywiad lefel y môr dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn trefnu eu gwaith mathemategol yn ddigon clir neu'n creu graffiau gyda manwl gywirdeb. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cael adborth digon manwl ynglŷn â'u gwaith rhifedd. Mae hyn yn rhwystro'u gallu i wirio'u gwaith am wallau yn annibynnol, gan rwystro eu cynnydd dros amser.

Er bod ychydig o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, nid yw'r rhain bob amser o fewn cyd-destunau dilys. At ei gilydd, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion yn gynyddol ar draws yr ysgol gyfan wedi'i ddatblygu'n ddigon da.

Ar draws yr adran ieuengaf ac mewn dosbarthiadau cynradd, ceir ychydig o gyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae disgyblion yn defnyddio ystod o offer digidol i gefnogi eu dysgu ym meysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau meddwl cyfrifiadol wrth ysgrifennu cod syml. Yn eu gwersi technoleg ddigidol, mae disgyblion oedran uwchradd yn datblygu eu medrau digidol yn dda. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau cynhyrchu

yn fedrus gan ddefnyddio ystod o feddalwedd i ddewis, cynhyrchu a golygu ystod o gydrannau amlgyfrwng at ddibenion amrywiol. Ar draws y cwricwlwm, caiff disgyblion ychydig o gyfleoedd perthnasol i ddatblygu eu medrau cymhwysedd digidol yn ehangach. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol yn gynyddol, o fewn cyd-destunau dilys ar draws yr ysgol gyfan, wedi'u datblygu'n ddigon da.

At ei gilydd, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn eu medrau Cymraeg dros gyfnod, ac mae ychydig o rai eraill yn gwneud cynnydd cryf. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau datblygu geirfa sylfaenol gadarn. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent yn datblygu eu medrau Cymraeg dros gyfnod o ganlyniad i ddiffyg strategaeth ysgol gyfan a chyfleoedd prin i siarad Cymraeg y tu allan i wersi amserlenedig yn yr adran uwchradd. Mae mwyafrif y disgyblion yn galw i gof yr iaith a ddysgwyd yn flaenorol sy'n eu galluogi i adalw gwybodaeth yn gywir mewn tasgau darllen a deall sylfaenol. Wrth iddynt fynd yn hŷn, mae ychydig ohonynt yn dehongli ystyr mewn testunau mwy estynedig a chymhleth yn llwyddiannus. Mae lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau siarad ac ysgrifennu sylfaenol yn Gymraeg. Maent yn gwneud defnydd cynhyrchiol o restrau geirfa a dechreuwyr brawddegau i'w helpu i gynhyrchu darnau byr o ysgrifennu. Mae ychydig ohonynt yn ysgrifennu'n gywir, gan ddangos dealltwriaeth gadarn o reolau gramadeg, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu am bwysigrwydd ffordd iach o fyw. At ei gilydd, nid yw llawer ohonynt yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent yn siarad naill ai oherwydd nad oes ganddynt hyder neu oherwydd eu bod yn amharod i siarad Cymraeg.

### Cwricwlwm

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn cynllunio'r cwricwlwm yn briodol fel bod dysgu yn adeiladu'n gynyddol ac yn systematig o fewn grwpiau blwyddyn, ac ar eu traws. Mae staff yn addasu darpariaeth yn effeithiol ar gyfer disgyblion yn y Meithrin i Flwyddyn 4, gan roi ystyriaeth dda i'w cyd-destunau, eu hanghenion a'u diddordebau. Fodd bynnag, nid yw'r cwricwlwm bob amser yn diwallu anghenion disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 ac nid yw'n alinio'n gyson ag addysgeg gynradd effeithiol. Mae'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 7 i 9 yn addas o eang a chytbwys, gan gynnig ystod eang o brofiadau gwerthfawr i ddysgwyr. Ym Mlynyddoedd 10 ac 11, mae'r ysgol yn darparu detholiad priodol o lwybrau academaidd a galwedigaethol sy'n darparu'n addas ar gyfer anghenion a dyheadau disgyblion. Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn elwa ar ystod berthnasol o gyrsiau, yn cynnwys opsiynau Safon Uwch a BTEC, ynghyd â nifer fach o gymwysterau Lefel 2.

Ar draws yr ysgol, rhoddir pwyslais addas ar ddatblygu medrau artistig, creadigol, corfforol a gwybyddol disgyblion o fewn y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn helpu ehangu profiadau disgyblion trwy gydweithio â phartneriaethau allanol gwerthfawr. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio gyda darparwyr gofal plant lleol i ddarparu cyfleoedd ystyrlon yn

gysylltiedig â gwaith. Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn defnyddio arbenigeddau pwnc athrawon yn briodol i gyfoethogi dysgu ar gyfer disgyblion iau. Fodd bynnag, mae'r arfer yn llai effeithiol ym Mlynyddoedd 5 a 6, lle nad yw'n adlewyrchu egwyddorion addysgu yn y sector cynradd yn gyson.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod o gyfleoedd i ddysgu am hanes a threftadaeth eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach, wedi eu cefnogi gan ymweliadau addysgol pwrpasol. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau ar gyfer disgyblion iau â marchnad Y Fenni a Chanolfan Ailgylchu Llan-ffwyst, a thripiau cyfoethogi dramor ar gyfer disgyblion hŷn. Mae'r ysgol hefyd yn darparu amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol, yn cynnwys clybiau Sbaeneg, gwyddbwyll, dawnsio a jyglo.

Mae disgyblion yn dysgu am amrywiaeth ar draws yr ystodau oedran, ond nid yw'r cyfleoedd hyn bob amser yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig. Mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth gymdeithasol, foesol, ysbrydol a diwylliannol yn dda trwy wersi crefydd, gwerthoedd a moeseg a gwasanaethau dynodedig. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion archwilio diwylliant Cymreig yn fanwl. Mae darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn helpu disgyblion i wneud dewisiadau gwybodus am ffordd o fyw ac yn codi eu hymwybyddiaeth am ystod o risgiau cymdeithasol.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf a sefydledig. Ceir trefniadau priodol ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel, i gefnogi diogelwch digidol ac amddiffyn disgyblion rhag trais, camfanteisio a radicaleiddio. Mae staff yn deall eu cyfrifoldebau diogelu yn dda ac yn gwybod pryd a sut i adrodd am bryderon. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff a'r llywodraethwyr yn cael hyfforddiant diogelu sy'n briodol i'w rolau ac maent yn cadw cofnodion clir. Maent yn gweithio'n dda gydag ystod eang o asiantaethau allanol i gefnogi eu gwaith amddiffyn plant ac wrth ddarparu trefniadau gofal a chymorth. Mae arweinwyr yn darparu diweddariadau rheolaidd ac atgyfnerthu negeseuon diogelu pwysig, sy'n cyfrannu'n effeithiol at gadw disgyblion yn ddiogel. Ar y cyfan, mae disgyblion yn ymwybodol o weithdrefnau diogelwch ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt broblem. O ganlyniad i'r cryfderau hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r tîm anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac aelodau staff yn ehangach yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i nodi anghenion unigol. Mae arweinwyr wedi ymrwymo i ddarparu profiadau o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion ag ADY, ac mae staff perthnasol yn cael hyfforddiant arbenigol sy'n eu galluogi i ddiwallu anghenion disgyblion yn effeithiol. Megis dechrau datblygu y mae prosesau ar gyfer nodi ADY yn gynnar ac ymyrraeth ar gyfer disgyblion iau.

Mae cyfathrebu parhaus, cyfarfodydd adolygu a sesiynau galw i mewn rheolaidd ar gyfer rhieni yn helpu meithrin perthnasoedd cadarnhaol ac yn cefnogi cynllunio effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY. Lle bo'n briodol, mae ystod eang o ymyraethau targedig mewn dosbarthiadau ac mewn grwpiau bach yn helpu'r disgyblion hyn i wneud gwelliannau addas mewn llythrennedd, rhifedd a lles. Mae dyddiaduron proffesiynol staff cymorth, proffiliau un dudalen disgyblion a chynlluniau datblygu unigol (CDUau) yn darparu gwybodaeth glir sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cefnogi cynllunio pwrpasol. Mae gwaith amlasiantaethol cryf yn darparu arweiniad a chymorth gwerthfawr, ac mae cyfleoedd ymarferol a galwedigaethol yn helpu disgyblion ag ADY i ddatblygu annibyniaeth a medrau bywyd go iawn. Ceir systemau defnyddiol i olrhain cynnydd disgyblion trwy ymyraethau ac yn erbyn targedau unigoledig, ond mae gwerthuso effaith y rhain ar draws pynciau yn y tymor hwy yn llai datblygedig. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr yn dadansoddi deilliannau ar gyfer gwahanol grwpiau bregus yn ddigon manwl gywir i dargedu cymorth.

Mae staff wedi sefydlu ethos gofalgar, cynhwysol a chroesawgar lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag ADY, yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, ac maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae staff dynodedig yn blaenoriaethu lles disgyblion, a gyda strwythurau bugeiliol effeithiol, maent yn cynnig cymorth targedig buddiol ar gyfer anghenion emosiynol, cymdeithasol ac iechyd meddwl disgyblion.

Mae disgyblion yn elwa ar leoedd tawel a darpariaethau arbenigol a nodwyd fel podiau a'r Hyb, sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel a datblygu eu hyder. Mae'r ysgol yn hyrwyddo parch a goddefgarwch yn llwyddiannus, er enghraifft trwy ddatblygu diffiniad ar y cyd o fwlio. Mae staff yn delio'n effeithiol â'r achosion prin iawn o fwlio, yn adolygu tueddiadau'n rheolaidd ac yn addasu testunau ABCh yn unol â hynny. Yn gyffredinol, mae disgyblion wedi datblygu dealltwriaeth addas o ddinasyddiaeth ddigidol, yn cynnwys sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Mae'r ysgol yn darparu cymorth cynhwysfawr ar gyfer disgyblion i gynllunio'u llwybrau yn y dyfodol.

Yn y ganolfan adnoddau arbenigol, mae staff yn defnyddio ardaloedd anogaeth a mannau diogel yn bwrpasol i gefnogi lles disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion feithrin perthnasoedd ehangach ac ennill profiadau newydd fel cymryd rhan yn y cyngerdd Nadolig a mynychu clwb ar ôl ysgol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n defnyddio darpariaeth brif ffrwd yn rheolaidd, sy'n cyfyngu ar eu datblygiad academaidd, cymdeithasol ac emosiynol.

## Ciplun: Darparu gweithgareddau allgyrsiol i gefnogi lles disgyblion a chreu ymdeimlad cryf o berthyn

Mae'r amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol a thripiau poblogaidd yn gryfder nodedig. Mae disgyblion yn mwynhau mynychu clybiau fel côr yr ysgol, y gerddorfa, a gweithgareddau chwaraeon amrywiol, ac mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn cynyrchiadau drama a cherddorol rheolaidd o ansawdd uchel. Mae tripiau ac ymweliadau, yn cynnwys y rhai i Sain Ffagan, Llangrannog, Paris, Rhufain a Bae Napoli, yn cyfoethogi profiadau academaidd a diwylliannol disgyblion ymhellach. Mae'r ddarpariaeth eang hon i gefnogi datblygiad cymdeithasol disgyblion a'u mwynhad o'r ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at eu hymdeimlad o berthyn i gymuned yr ysgol.

Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol wedi sefydlu ystod eang o grwpiau sy'n cael eu harwain gan ddisgyblion gyda bwriad i roi cyfle i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain a chyfrannu at wneud penderfyniadau ar draws yr ysgol. Mae'r dull datblygol hwn yn dechrau cefnogi disgyblion yn briodol i fagu hyder, a meithrin medrau cydweithio ac arwain. Mae ychydig o grwpiau yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar rai agweddau ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r Cyngor Pontio, sy'n cynnwys disgyblion ym Mlynyddoedd 6 a 7, yn darparu cymorth defnyddiol rhwng cyfoedion, tra bod y Grŵp Lles wedi cyfrannu'n fuddiol at ddewisiadau arlwyo ac ymestyn ardaloedd seddi cymdeithasol. Yn y chweched dosbarth, mae disgyblion sy'n ymgymryd â rolau fel Cymorth Gweithredol i Wrando ar Ddisgyblion (PALS) a Llysgenhadon Lles yn cael hyfforddiant ac arweiniad addas. Maent yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol ac yn cyfrannu'n effeithiol at ethos gofalgar a pharchus yr ysgol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r rhan fwyaf o grwpiau arweinyddiaeth disgyblion, yn cynnwys y Cyngor Ysgol, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'u heffaith gyffredinol. Nid yw prosesau i rannu gwaith y grwpiau hyn gyda chymuned yr ysgol ehangach wedi eu datblygu'n ddigonol o hyd. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o sut mae eu safbwyntiau'n ffurfio penderfyniadau neu'r gwahaniaeth y mae'r grwpiau hyn yn ei wneud.

Mae'r ysgol yn dangos ymrwymiad cryf i wella presenoldeb, gan arwain at gyfraddau presenoldeb ysgol gyfan gwell rhwng 2023-2024 a 2024–2025. Mae data presennol yr ysgol yn dangos parhâd yn y gwelliant mewn presenoldeb o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Yn y sector cynradd, mae'r bwlch presenoldeb rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion wedi culhau yn llwyddiannus, ac mae'r grŵp hwn o ddisgyblion yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol, erbyn hyn. Mae ffigurau presennol yr ysgol gyfan ar gyfer nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus wedi gwella ac maent yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol, hefyd. Mae systemau cadarn ar waith i fonitro ac olrhain presenoldeb a phrydlondeb, ac mae arweinwyr yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd trwy wasanaethau a chyfathrebu cyson â rhieni a rhanddeiliaid eraill. Mae strategaethau cymhellol addas yn helpu meithrin diwylliant presenoldeb cadarnhaol ar draws cymuned yr ysgol. Fodd bynnag, er gwaethaf y

gwelliannau hyn, mae presenoldeb cyffredinol yn y sector uwchradd a phresenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn rhy isel o hyd.

## Arwain a gwella

Mae’r pennaeth yn arweinydd angerddol ac ymroddgar. Mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy’n dyheu i ‘gredu yn y gallu diderfyn i bawb gyflawni pethau gwych’, ac mae wedi rhannu’r weledigaeth hon yn bwrpasol gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a chymuned ehangach yr ysgol. Yn y cyfnod byr ers agor yr ysgol bob oed, mae’r pennaeth wedi llwyddo i feithrin ymdeimlad o berthyn ac wedi sicrhau gwelliannau nodedig mewn meysydd allweddol y nodwyd eu bod yn ddiffygion cyn uno’r ysgolion blaenorol. Mae’r rhain yn cynnwys ymddygiad disgyblion a’u hagweddau at ddysgu, presenoldeb ac ansawdd yr addysgu.

Mae rolau’r uwch dîm arwain wedi eu diffinio’n glir, a’u cyfrifoldebau wedi eu dosbarthu’n synhwyrol. Mae uwch arweinwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau’n addas, yn cefnogi’r pennaeth yn dda ac yn gweithio’n agos fel tîm. Fodd bynnag, mae llawer o’r cynllunio a’r gwaith strategol a wna uwch arweinwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar ddarpariaeth ac arweinyddiaeth yn y sector uwchradd. Ni roddir ystyriaeth briodol bob amser i addasrwydd a pherthnasedd strategaethau ysgol gyfan o fewn dysgu sylfaen a chyd-destunau cynradd.

Mae trefniadau rheolaeth llinell yn glir, a cheir cyfleoedd rheolaidd i arweinwyr canol gymryd rhan mewn trafodaeth broffesiynol gyda’u rheolwyr. Mae cyfarfodydd yn dilyn agenda gyffredin ac yn cynnwys trafodaethau gwerthfawr ar feysydd cyfrifoldeb arweinwyr, lles staff a chamau brys sydd eu hangen i wella darpariaeth. Fodd bynnag, nid yw’r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio’n ddigon agos ar dystiolaeth a data uniongyrchol. Mae hyn yn cyfyngu ar eu heffaith, yn rhwystro cynnydd ac yn atal arweinwyr rhag dwyn i gyfrif yn llawn y rhai y maent yn rheolwyr llinell arnynt. Mae arweinwyr yn rhoi cymorth da, ar y cyfan, i staff sydd angen arweiniad ychwanegol, ac yn mynd i’r afael â thanberfformio ymhlith staff yn briodol.

Mae arweinwyr wedi canolbwyntio’n addas ar fynd i’r afael â llawer o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae’r rhain yn cynnwys gwella ansawdd yr addysgu, gwella presenoldeb disgyblion a datblygu diwylliant darllen ysgol gyfan. Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i leihau effaith tlodi ar les a chyrhaeddiad disgyblion trwy ddarparu cymorth i fynd i’r afael â rhwystrau rhag dysgu. Roedd perfformiad disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn well na pherfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg yn 2024. Fodd bynnag, dirywiodd perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion yn 2025 ac nid yw’n cymharu’n dda â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae presenoldeb y disgyblion hyn wedi bod islaw presenoldeb mewn ysgolion tebyg am y ddwy flynedd ddiwethaf. Megis dechrau datblygu y mae trefniadau’r ysgol ar gyfer mynd i’r afael â

blaenoriaethau cenedlaethol eraill, fel ymgorffori Cwricwlwm i Gymru ar draws sectorau a gwella medrau Cymraeg disgyblion.

Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn datblygu'n addas. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau pwysig fel gwella ansawdd addysgu ac asesu, presenoldeb a datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae cynlluniau pwnc a chynlluniau sy'n benodol i sector yn dilyn fformat tebyg. Er bod blaenoriaethau perthnasol yn cael eu nodi yn y cynlluniau hyn, mae meini prawf llwyddiant yn aml yn amwys ac nid yw gwerthusiadau ar gynnydd yn canolbwyntio'n ddigon da ar dystiolaeth uniongyrchol, data na deilliannau asesu.

Mae'r ysgol yn cynllunio rhaglen addas o weithgareddau sicrhau ansawdd i fonitro cynnydd yn erbyn ei blaenoriaethau. Mae arweinwyr yn llunio adroddiadau gwerthuso rheolaidd yn dilyn y gweithgareddau hyn. Er bod yr adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am ychydig o agweddau perthnasol, fel cysondeb ac addasrwydd adborth athrawon, ceir gwerthusiad cyfyngedig o effaith yr addysgu a'r ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr wedi cyflwyno dull strategol o gefnogi dysgu proffesiynol staff er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau gwella'r ysgol a chefnogi'r weledigaeth i ddatblygu'r ysgol bob oed, ond megis dechrau y mae hyn. Er i hyn ganolbwyntio i ddechrau ar ddatblygu diwylliant ysgol gyfan o welliant mewn meysydd allweddol cyffredin yn llwyddiannus, mae bellach yn dechrau esblygu i ddiwallu anghenion cyfnodau ac adrannau ar draws yr ysgol. Er bod y gwaith hwn yn lled briodol, nid yw'n cael ei fireinio i ymateb i'r addysgeg, y datblygiad cwricwlwm a medrau penodol, a'r profiadau dysgu sydd eu hangen o fewn pob un o'r sectorau. Hyd yma, nid yw'r ysgol wedi datblygu cydweithio ar draws sectorau yn llawn rhwng staff i gefnogi datblygu'r cwricwlwm trwy gynllunio profiadau dysgu cynyddol ar gyfer ei disgyblion.

Mae'r ysgol wedi sefydlu proses gyffredin yn ddiweddar i gefnogi staff yn eu datblygiad proffesiynol. Mae amcanion personol yn alinio'n agos ag anghenion datblygiadol a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Fodd bynnag, mae trefniadau adolygu yn anghyson.

Mae arweinwyr yn casglu barn disgyblion a rhieni ar adegau rheolaidd i'w helpu gyda sicrhau ansawdd ac i nodi blaenoriaethau. Mae llywodraethwyr cyswllt hefyd yn trafod agweddau ar fywyd yr ysgol gyda disgyblion fel rhan o'u gwaith cymorth. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o gyfryngau i gyfathrebu â rhieni i rannu newyddion pwysig a dathlu llwyddiant. Nid yw uwch arweinwyr bob amser yn cyfleu strategaethau newydd i staff mewn modd digon clir neu amserol neu nid ydynt yn esbonio'r rhesymeg ar gyfer y newidiadau hyn yn llawn.

Mae llywodraethwyr yn eiriolwyr cryf dros yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn darparu cymorth effeithiol i'r pennaeth a'r staff trwy ddull ystyriol a phwyllog. Mae llywodraethwyr yn gweithio gydag arweinwyr i gynnal ystod addas o weithgareddau monitro. Mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae'r corff llywodraethol yn herio ac yn dwyn uwch arweinwyr i gyfrif yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i sicrhau cynrychiolaeth briodol gan ddisgyblion yn eu cyfarfodydd.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol, yn cynnwys grantiau, yn ofalus. Maent yn monitro gwariant yn briodol ac yn gweithio'n bwrpasol gyda'r awdurdod lleol i gyflwyno cynllun adfer cytûn i fynd i'r afael â'r diffyg yng nghyllideb yr ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Fodd bynnag, mae diffyg yng nghyllideb yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2026